

Safonau dwbl

“Yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o’r eiddo Duw ei hun...” (adn. 9)

Beth am ddarlenn 1 Pedr 2:1–10 ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym am ystyried y cwestiwn: A yw’n bosibl i bob Cristion fyw bywyd sanctaidd neu ai rhywbeth ar gyfer rhai o’r saint yw hyn? Yr ateb wrth gwrs yw fod yr alwad i fyw bywyd gwahanol i fywyd y byd yn cael ei gyfeirio at bawb sydd yn enwi enw Iesu. Yn anffodus, dyma un o’r gwirioneddau sydd wedi ei guddio o fewn i hanes yr eglwys ac yn taflu cysgod dros yr oesau.

Ar hyd y blynyddoedd, mae’r eglwys wedi cydnabod (ac yn dal i gydnabod) ‘safon ddwbl’. Y greddo yw bod yna un safon ar gyfer yr aelod eglwysig arferol a safon arall ar gyfer y bobl hynny sy’n ymdrechu at dduwioldeb. Roedd rhai o’r Cristnogion cynnar yn dadlau, er mwyn bod yn sanctaidd, bod rhaid gwahanu eich hunan yn gorfforol o weddill y byd. Dyma a arweiniodd at gynnydd mewn mynachlogydd. Nid oes gennyf ddim yn erbyn pobl sydd yn teimlo galwad i fywyd mynachlogaidd a hynny er mwyn rhoi eu hunain yn gyfan gwbl i weddi, cyn belled nad ydynt yn rhoi’r argraff mai dyma’r unig ffordd i ymarfer duwioldeb. Mae sancteiddrwydd yn agored i bob Cristion ac mae pob Cristion yn cael ei alw i sancteiddrwydd. Mae’r person sydd yn glanhau’r stryd neu’r person sydd yn sefyll yn y pulpud yn cael eu galw gan yr Arglwydd i fod ar wahân.

Mae’n testun heddiw yn cyfeirio at y ffaith fod Cristnogion yn genedl sanctaidd ac rydym i gyd yn rhan o’r genedl honno. Felly mae angen sylweddoli fod pob Cristion i fod yn wahanol – ond nid yn wahanol yn yr ystyr eu bod yn datblygu rhyw ffordd rhyfedd o fyw a gweithredu. Mae Crist am ein sancteiddio ni, nid ein gwneud ni i edrych yn wirion yng ngolwg y byd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Cor. 6:14–7:1; 1 Pedr 2:11–17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam ddylem geisio perffeithio sancteiddrwydd yn ein bywydau?
2. Beth fydd canlyniad ein bywydau da?

Gweddi

O Dad, ble bynnag y mae’r syniad o ddwy safon yn bodoli ymhlith dy bobl, rwy’n gofyn i ti i’w chwalu. Cynorthwya fi i weld fod sancteiddrwydd yn safon yr wyt ti’n ei osod ar gyfer pob un o dy blant, beth bynnag yw ein galwad, beth bynnag yw ein sefyllfa mewn bywyd. Yn enw Iesu. Amen.